

Gwneud yswiriant ar gael ac yn fforddiadwy i gartrefi y mae llifogydd wedi effeithio arnynt

Beth yw Flood Re?

Mae Flood Re yn gynllun ar y cyd gan y Llywodraeth a'r diwydiant yswiriant i'ch galluogi i ganfod yswiriant fforddiadwy ar gyfer eiddo cymwys sydd mewn risg o lifogydd neu sydd wedi dioddef llifogydd. Mae rhan o'n gwaith hefyd yn ymwneud â'ch helpu i ganfod mwy am risgiau llifogydd i'ch cartref a sut y gallwch helpu i'w gostwng.

A all Flood Re fy helpu?

Mae Flood Re yn gweithio yn y cefndir, yn helpu'r diwydiant yswiriant i gynnig yswiriant mwy fforddiadwy i bawb gydag eiddo cymwys a all fod mewn risg llifogydd.

Beth sydd angen i mi wneud?


1. Siarad gyda'ch yswiriwr a gofyn iddynt os yw eich cartref yn gymwys am gynllun Flood Re (caiff manylion ein cymhwyster eu nodi ar ein gwefan).
2. Bod yn barod i edrych o gwmpas am y cynnig gorau.
3. Cofio fod canfod y cyngor a'r cynnyrch cywir yn bwysig.

A fyddaf yn hawlio drwy Flood Re?

Na. Byddwch yn parhau i brynu yswiriant a hawlio drwy eich yswiriwr yn yr un ffordd ag y gwnech yn awr.

Beth allaf ei wneud i atal llifogydd?

Cael mwy o wybodaeth am lefelau risg llifogydd yn eich ardal a sut i leihau'r effaith ar eich eiddo. www.gov.uk/prepare-for-a-flood



Sut mae Flood Re yn gweithio?

Gweithiwn tu ôl i'r llenni, gan gymryd elfennau risg uchel llifogydd eich yswiriant cartref. Mae'n gweithio fel hyn:

- Casglwn dreth flynyddol gan yswirwyr cartrefi fydd yn cyfrannu £180m i gronfa bob blwyddyn y byddwn yn ei rheoli yn ganolog.
- Bydd eich yswiriwr yn trosglwyddo unrhyw ran risg llifogydd uchel o'ch polisi i ni, felly nid yw'n rhaid i chi wneud dim.
- Byddwn wedyn yn cymryd cyfrifoldeb am ran risg llifogydd eich polisi ac os gwnewch hawliad dilys ar eich yswiriant byddwn yn ad-dalu'r yswiriwr o gronfa ganolog Flood Re.

Gyda'r gefnogaeth hon gennym ni, dylai yswirwyr fedru darparu yswiriant fforddiadwy, hyd yn oed ar y cartrefi hynny sydd mewn mwyaf o risg gan nad yw'n rhaid iddynt wedyn dalu cost yr hawliad llifogydd.

Dros gyfnod, amcangyfrifwn y bydd Flood Re o fudd i dros 350,000 o gartefi drwy roi mynediad i'r polisiâu mwy fforddiadwy hynny

Byddwch yn prynu eich yswiriant cartref fel arfer

Mae yswirwyr yn talu treth flynyddol sy'n ariannu Flood Re

Mae yswiriwyr yn trosglwyddo'r risg ac yn talu premiwm i Flood Re

Byddwch chi'n gwneud hawliad cymwys a bydd eich yswiriwr yn talu

Mae Flood Re yn ad-dalu hawliadau dilys i yswirwyr

Yswirwyr, ac nid Flood Re, sy'n gosod prisiau

Gwybodaeth a chyngor

Mae mwy o fanylion am arolygon risg llifogydd a'r math cywir o ddiogeliad llifogydd ar gyfer eich cartref yma:

Cymdeithas Yswirwyr Prydeinig

www.abi.org.uk

Sefydliad Siartredig Rheolaeth Dŵr ac Amgylcheddol

www.ciwem.org

Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig

www.rics.org/uk

Fforwm Cenedlaethol Llifogydd

www.nationalfloodforum.org.uk

Y Tudalennau Glas

www.bluepages.org.uk

Grŵp Diogelu Llifogydd

www.property-care.org/homeowners/flood-protection

Cyfoeth Naturiol Cymru

www.naturalresources.wales



Cysylltwch â'ch yswiriwr neu ewch i www.floodre.co.uk i gael mwy o wybodaeth Dilynwch ni ar Twitter @FloodRe

